Prosiect Dulliau Addysgu Cymraeg a Dwyieithog

Cyngor i Addysgwyr

Pwrpas y Ddogfen

Mae'r ddogfen hon ar gyfer addysgwyr ac addysgwyr clinigol mewn addysg drydyddol sy'n gyfrifol am gynllunio, cyflwyno ac asesu dysgu sy'n cynnwys elfennau Cymraeg a dwyieithog. Ei phwrpas yw cyfuno tystiolaeth ymchwil gyda chyngor ymarferol i ddangos sut i gynllunio addysgu sy'n cefnogi dysgwyr dwyieithog llai hyderus i ddefnyddio mwy o Gymraeg wrth astudio a hyfforddi.

Tra bo'r ddogfen Cyngor i Reolwyr ac Uwch-reolwyr yn canolbwyntio ar greu'r amodau strwythurol a pholisi ar lefel sefydliadol, mae'r ddogfen hon yn canolbwyntio ar weithredu beunyddiol yn yr ystafell ddosbarth, y seminar a'r lleoliad gwaith. Mae'r ddwy ddogfen yn gweithredu ochr yn ochr ac yn seiliedig ar yr un corff o dystiolaeth.

Mae'r ymchwil yn dangos bod modelau graddol, wedi'u hymgorffori yn y cwricwlwm, yn cael eu ffafrio gan fyfyrwyr llai hyderus. I addysgwyr, mae hyn yn golygu cynllunio llwybrau iaith sy'n dechrau gyda lleihau'r teimlad o risg ymysg dysgwyr cyn symud yn raddol at gyflwyno elfennau asesu ffurfiol a thasgau sy'n adlewyrchu'r gweithle. Mae'r camau hyn yn gweithio orau pan gânt eu cyflawni ar y cyd â chydweithwyr a'u cefnogi gan strwythurau a pholisïau'r sefydliad.

Cefndir

Dros y degawd diwethaf, mae darpariaeth addysg drydyddol trwy gyfrwng y Gymraeg wedi tyfu, ond nid yn gyfartal ar draws sectorau, pynciau a rhanbarthau. Mewn nifer o raglenni, mae myfyrwyr yn cael dewis rhwng llwybrau Saesneg, Cymraeg a dwyieithog, ond nid yw pob dysgwr sydd â'r sgiliau ieithyddol yn teimlo'n hyderus i ddewis y ddarpariaeth Gymraeg.

Mae'r ymchwil yn dangos bod myfyrwyr llai hyderus yn aml yn gweld astudio trwy'r Gymraeg fel mwy o risg o ran llwyddiant academaidd, llwyth gwaith a'u hyder eu hunain yn eu Cymraeg. Yn aml, maent yn poeni a yw eu Cymraeg "yn ddigon da" ar gyfer asesiadau ffurfiol.

Os yw polisïau cenedlaethol ar y Gymraeg mewn addysg i lwyddo, bydd angen cefnogi nifer gynyddol o fyfyrwyr dwyieithog, ond llai hyderus, gan gynnwys rhai nad ydynt wedi dod trwy lwybrau ysgolion cyfrwng Cymraeg traddodiadol. Mae addysgwyr ar y rheng flaen yn chwarae rôl ganolog wrth feithrin eu hyder trwy ddylunio profiadau dysgu sy'n raddol, yn gefnogol ac yn seiliedig ar dystiolaeth.

Yr Ymchwil: sail y cyngor i addysgwyr

Mae tair prif elfen i'r ymchwil a adroddir yma: arolwg myfyrwyr, adolygiad o'r llenyddiaeth, adolygiad o arfer da, a dadansoddiad o synnwyr myfyrwyr o berthyn i'w carfan academaidd, eu sefydliad a'u hagweddau at y Gymraeg.

Roedd awydd cryf i ddefnyddio'r Gymraeg ar draws y grŵp ond roedd ofn methu'n academaidd ar fyfyrwyr llai hyderus o ran iaith.

Roedd hyder myfyrwyr yn amrywio'n gryf yn ôl ffurfioldeb y dasg, gyda thasgau anffurfiol yn cael eu gweld fel rhai yn haws na thraethodau ac arholiadau, a gwrando a siarad Cymraeg yn cael eu hystyried yn haws nac ysgrifennu.

Tra bod trawsieithu'n gweithio'n effeithiol pan gynllunnir ymarferion trawsieithu yn fwriadol, pan ddefnyddid trawsieithu heb gynllunio addysgol bwriadol, gallai atgyfnerthu lle canolog y Saesneg.

Roedd gallu gweithio trwy grwpiau bach yn allweddol i ddatblygu hyder myfyrwyr o ran defnyddio'r Gymraeg ar lafar.

Y gefnogaeth fwyaf gwerthfawr i fyfyrwyr oedd sgyrsiau anffurfiol yn trafod eu pwnc gyda staff yn y Gymraeg.

Wrth eu hystyried gyda'i gilydd, mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod angen i addysgwyr symud o fodelau "du a gwyn" (naill ai Cymraeg neu Saesneg) a dwyieithrwydd heb ei gynllunio tuag at lwybrau cam wrth gam lle mae defnydd myfyrwyr o'r Gymraeg yn cynyddu dros amser, ac yn cael ei gefnogi gan strwythur clir, tasgau wedi'u graddio, a neges gyson fod y Gymraeg yn iaith academaidd a phroffesiynol hyfyw.

O'r dystiolaeth i ymarfer

Gan fod penderfyniadau addysgwyr o ddydd i ddydd yn ffurfio profiad myfyrwyr o'r Gymraeg yn y dosbarth, mae angen fframwaith syml i drosi'r dystiolaeth hon yn gamau pendant. Mae'r model graddol isod yn cynnig ffordd ymarferol o gynllunio dysgu ac asesu sy'n lleihau'r ymdeimlad o risg, yn adeiladu hyder, ac yn cysylltu'r Gymraeg â llwyddiant academaidd a chyflogadwyedd. Mae pob cam yn dibynnu ar y cam blaenorol ac yn gallu cael ei addasu i gyd-destunau pwnc gwahanol.

Model Graddol ar gyfer Cynllunio Addysgu

Mae'r dystiolaeth yn darlunio'r angen am fodel graddol, sy'n adeiladu hyder dros amser yn hytrach na disgwyl newid sydyn mewn ymddygiad ieithyddol.

Cam 1: Lleihau'r Risg (Wythnosau Cynnar / Tasgau Cynnar)

Camau ymarferol i addysgwyr

Cyd-drefnu fel tîm modiwl: cytuno ar egwyddor o "Cymraeg heb risg" yn ystod wythnosau cynnar, h.y. ni chaiff camgymeriadau iaith eu cosbi mewn tasgau anffurfiol na thrafodaethau cynnar.

Mapio cynnwys y modiwl: nodi'r darlithoedd, seminarau a themâu lle mae'n realistig darparu deunyddiau dwyieithog llawn (e.e. sleidiau, termau allweddol, crynodebau byr), a pha elfennau all aros yn bennaf yn Saesneg i ddechrau.

Cytuno ar negeseuon allweddol: sicrhau bod pob aelod o'r tîm yn ailadrodd yr un neges i fyfyrwyr, e.e. "dealltwriaeth o'r pwnc yw'r brif flaenoriaeth – nid perffeithrwydd ieithyddol".

Modelu arfer: dangos defnydd naturiol, hyblyg o'r Gymraeg yn y dosbarth (e.e. cyfarchiadau, esbonio termau, ailadrodd cysyniadau) heb orfodi myfyrwyr i newid eu patrymau ar unwaith.

Fel addysgwr, y nod wrth gyflwyno Cam 1 yw lleihau'r llwyth gwybyddol ac atal y Gymraeg rhag cael ei gweld fel risg ychwanegol, gan osod y sylfaen ar gyfer newid graddol yn nes ymlaen.

Cam 2: Adeiladu Hyder trwy Ymarfer Anffurfiol

Camau ymarferol i addysgwyr

Cynllunio o leiaf un dasg ysgrifenedig fer, anffurfiol yn Gymraeg ym mhob modiwl blwyddyn gyntaf (e.e. blog 150 gair, myfyrdod byr, nodiadau pâr), gyda meini prawf sy'n canolbwyntio ar gynnwys a myfyrio yn hytrach na chywirdeb iaith.

Trefnu grwpiau seminar penodedig, Cymraeg neu o leiaf sesiynau penodol lle caiff myfyrwyr eu hannog i drafod yn Gymraeg, gan egluro'n glir nad oes asesu ffurfiol yn gysylltiedig â'r sesiynau hyn.

Defnyddio trawsieithu pedagogaidd yn fwriadol: e.e. darllen testun neu erthygl yn Saesneg ond gofyn i fyfyrwyr grynhoi, trafod neu gynnig enghreifftiau yn Gymraeg; neu'r gwrthwyneb pan fo'n addas.

Cynnig sgyrsiau byr yn y Gymraeg i annog myfyrwyr i ofyn cwestiynau neu drafod cysyniadau allweddol yn anffurfiol yn y Gymraeg drwy slotiau penodedig (e.e. 10 munud cyn/ar ôl y ddarlith).

Fel addysgwyr, ein cyfrifoldeb wrth gyflwyno Cam 2 yw creu cyfleoedd di-risg i fyfyrwyr roi cynnig ar ddefnyddio'r y Gymraeg i ddysgu, gan dderbyn bod gwallau'n rhan o'r broses dysgu i ddefnyddio'r Gymraeg yn broffesiynol yn hytrach nac yn rheswm i osgoi'r iaith.

Cam 3: Cyflwyno Elfennau Ffurfiol yn Raddol

Camau ymarferol i addysgwyr

Nodi gwerth sgiliau Cymraeg proffesiynol i ddysgwyr o ran eu cyflogadwyedd ar ôl gorffen y cwrs.

Cyflwyno elfennau asesu bach trwy'r Gymraeg, e.e. cyflwyniad llafar 3–5 munud, blog wedi'i asesu, neu adran o bortffolio yn Gymraeg. Lle mae'r cyd-destun yn caniatáu, gellir ystyried cynnig dewis i fyfyrwyr rhwng sawl ffurf ar asesiad fel eu bod yn dechrau gyda'r dull sydd mwyaf cyfforddus iddynt. Ni fydd yn bosib gweithredu hyn ymhob cyd-destun pwnc a gall arbrofi gyda dewis o ran asesu ffurfiannol fod yn fuddiol fel man cychwyn.

Diffinio sut mae marciau'n cael eu dyfarnu gan bwysleisio mai ystyr, dadansoddi a rhesymu academaidd ydy'r ffocws pennaf yn hytrach na chywirdeb iaith.

Darparu adborth ffurfiannol yn y Gymraeg ar ran o'r asesiadau: canolbwyntio'n bennaf ar gryfderau cynnwys a strwythur, gan dynnu sylw at batrymau iaith allweddol heb greu rhestr faith o gamgymeriadau.

Cyd-drefnu â chydweithwyr ar draws blwyddyn/rhaglen fel bod disgwyliadau ieithyddol yn cynyddu'n raddol: e.e. canran bach o asesu yn Gymraeg yn y flwyddyn gyntaf, cynyddu'r ganran neu lefel ffurfioldeb yn raddol yn ystod blynyddoedd dilynol.

Yn achos pynciau iechyd a lles, pwysleisio sut mae cyfathrebu'n glir yn ddwyieithog yn elfen hanfodol o sicrhau diogelwch cleifion trwy ddeall symptomau claf a sut mae'n allweddol i gynnig gofal ag urddas.

Trwy gyflwyno elfennau ffurfiol yn raddol, byddwch yn cysylltu'r Gymraeg gyda llwyddiant academaidd yn hytrach nag â pherygl o fethu.

Cam 4: Asesu Dilys a'r Gymraeg yn y Gweithle

Camau ymarferol i addysgwyr

Dylunio tasgau sy'n efelychu sefyllfaoedd gwaith go iawn: e.e. cyfweliadau gyda 'cleientiaid', cyfarfodydd tîm, galwadau ffôn, neu senarios clinigol lle mae rhan o'r rhyngweithio'n digwydd yn Gymraeg.

Integreiddio asesiadau dwyieithog dilys: e.e. OSCE (ar gyfer cyrsiau meddygol a nyrsio) sy'n cynnwys cyfarch a chasglu gwybodaeth yn Gymraeg ond ysgrifennu nodiadau yn Saesneg, neu bortffolio yn defnyddio trawsieithu lle caiff myfyrwyr newid iaith yn fwriadol rhwng gwahanol rannau.

Gweithio gyda phartneriaid lleoliad a chyflogwyr i nodi'r sgiliau ieithyddol mwyaf perthnasol (e.e. cyfarch, egluro'r ffordd o weithio, trafod opsiynau) a'u trawsnewid yn feini prawf asesu clir.

Annog myfyrwyr i fyfyrio ar sut mae'r Gymraeg yn dod yn "offeryn gwaith": e.e. drwy adran yn adlewyrchu ar ddefnydd y Gymraeg ar ddiwedd tasg, lle maent yn disgrifio sut y byddant yn trosglwyddo'r profiad i'w gweithle yn y dyfodol.

Nod cam 4 yw dangos yn glir i fyfyrwyr fod defnyddio'r Gymraeg yn sgil proffesiynol gwerthfawr sy'n cynyddu eu cyflogadwyedd a'u gallu i wasanaethu cymunedau dwyieithog.

Cyfeirnod llawn

Cyfeirnod llawn: Davies, M., Ahn, M., Young, K., Parry, D., Champion, F. a Mark, H. (2026) Dulliau Dysgu Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog: Modelau Addysgu i Gefnogi Dysgwyr

Dwyieithog Llai Hyderus yn eu Dewisiadau Iaith o fewn Addysg Ôl-16 yng Nghymru. Caerfyrddin: Coleg Cymraeg Cenedlaethol.